Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05yh.

Presennol : Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christopher Parish
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies.

Cof 113/ Gorff / 11 Cyfrifon i'w talu

Hugh Gwynne	£ 132.00
Goleuadau Llwybr Troed CSG (Ebrill i Orffennaf)	£ 256.96
Morgan & Morgan (offer ysgrifennu)	£ 18.53
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 45.00
CGGC (Gweinyddu cyflogres Mehefin)	£ 24.30
Y Cawdor (anfoneb cinio'r Maer)	£ 2,403.50
Lewis Printers (taflenni Parc Penlan)	£ 130.00

Argymhellwyd bod yr uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Byddai pob un o'r rhain yn cael eu talu trwy BACS.

Cof 114/ Gorff / 10 Incwm a dderbyniwyd ym Mehefin 2011

TAW Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 2010/11 (wedi'i adfer)	£ 3,127.22
Derbyniadau Cinio'r Maer	£ 275.00
Llog banc (cyfrif cadw)	£ 4.62

Cof 115/ Gorff / 11 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 30.6.11)	£ 21,390.75
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 27.6.11)	£ 10,491.52
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 18.6.11)	£ 385.83
Bond Adnau Llog Uchel CTLl	£ 20,000.00

Cof 116/ Gorff / 11 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad ar y Gyllideb hyd at ddiwedd Mehefin 2011.
   Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei adroddiad i'r Pwyllgor.

2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.

Bu'r Cynghorwyr yn ei adolygu ac argymhellwyd y canlynol:

a) Bod £250 y flwyddyn yn cael ei neilltuo o'r arian a roddwyd gan y Gymdeithas Gymunedol i ddigwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan.
b) Bod £500 yn cael ei neilltuo ar gyfer Canmlwyddiant Pont y Brenin.

3. Ceisiadau am gymorth ariannol.

i)Henoed Llandeilo £100 (Band C). Cynigwyd gan y Cyng. Christopher Parish, eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy.

ii) Shopability Caerfyrddin £20 (Band A). Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy.

iii)Apêl Urdd Sir Gâr £50 (Band A). Cynigwyd gan y Cyng. Christopher Parish, eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones

iv) Shelter Cymru £50 (Band A) Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones, eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish

Cof 117 / Gorff /11 Doedd dim Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

Cof 118 / Gorff /11 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol

Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad ar y digwyddiad ym Mharc Penlan. Gofynnodd am daliad goramser o 16 awr am yr holl waith paratoi. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y taliad goramser yn cael ei roi iddo ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i Mr Davies am ei holl waith. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Mr Geraint Price am fenthyg ei gerbyd yn ystod y digwyddiad, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Byddai Is-grŵp Parc Penlan yn cwrdd ar y 26ain o Orffennaf 2011, i werthuso'r digwyddiad eleni.
Gofynnwyd i'r Clerc i osod goleuadau'r Neuadd Ddinesig ar Agenda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Medi.

Cof 119/ Gorff /11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20yh.